Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Dyddiad/Date 7fed o Hydref 2021
Llinell Uniongyrchol/Direct Line
E-bost/E-mail
Cyswllt/Contact
Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref AT17

TREFNIADAU NEWYDD AR GYFER CEFNOGI PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AC ANABLEDDAU

Hydref 2021

Annwyl Riant/Ofalwr,

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA 2018)

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac anabledd yn newid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno system newydd fwy hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion plant ag AAA neu anableddau ac yn ymdrechu i gyflwyno system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru.

Bydd y system newydd yn sicrhau:

- y nodir anghenion yn gynnar, y rhoddir sylw iddynt yn gyflym ac y cefnogir yr holl ddysgwyr i gyrraedd eu potensial.
- bod ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus wrth nodi anghenion a defnyddio strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu.
- bod y dysgwr yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud a'i fod ef a'i rieni/ofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn ei ddysgu. (Arfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn)

O fis Medi 2021, caiff y system **ei chyflwyno'n raddol** dros yr ychydig flynyddoedd nesaf (2021-2024). Dyma rai o'r negeseuon allweddol am y newidiadau hyn a'r hyn y gallant ei olygu i chi a'ch plentyn.

Negeseuon allweddol

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau Dysgu ac Anableddau (ADA).
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) mewn ysgolion bellach yn cael eu galw'n Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY).
- Bydd y Côd ADY gorfodol ar gyfer y system newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Mae hyn yn golygu y bydd gan y blynyddoedd cynnar a cholegau addysg bellach ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ond nid yw hyn yn cynnwys addysg uwch na phrentisiaethau.

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Andrew Thomas
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ
Ffôn 01639 763298

Education, Leisure & Lifelong Learning
Andrew Thomas
Director of Education, Leisure & Lifelong Learning
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ
Tel 01639 763298

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

- Mae'r system raddedig gyfredol o Flynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol, Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiadau'n cael ei disodli dros y 3 blynedd nesaf.
- Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) a nodwyd y mae angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) ar ei gyfer Gynllun Datblygu Unigol (CDU).
- Bydd y CDU yn disodli'r holl gynlluniau unigol eraill. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am CDUau i blant dan oedran ysgol gorfodol y mae arnynt angen y rhain, er enghraifft, yn y blynyddoedd cynnar.
- Cyfrifoldeb yr ysgol fydd y mwyafrif o Gynlluniau Datblygu Unigol ond gall yr awdurdod lleol fod yn gyfrifol am CDUau y dysgwyr hynny â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Mae'r Ddeddf yn disgwyl i'r holl bartneriaid megis Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.
- Bydd cyfleoedd cynyddol i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr gyfrannu at greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol drwy Arfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (ACU).
- Disgwylir y dylai cydweithio agosach yn helpu i osgoi anghytundebau.
- Cymerir yr holl gamau rhesymol i sicrhau y darperir darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg, os oes angen.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n rhoi cyflwyniad i'r system ADY newydd bellach ar gael ar lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru. Dyma erthygl newyddion Hwb i gyflwyno'r cwrs, ac mae hi ar hafan Hwb ar hyn o bryd; https://hwb.gov.wales/news/articles/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b

Dyma'r ddolen i'r cwrs ei hun: https://hwb.gov.wales/repository/publishers/9fb2afc9-6408-4aa3-9474-3c745006535b/resource/c8033263-aaa0-42fc-9511-ab7d33bd8084/cy

Gwefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennigl

Mae **SNAP Cymru** fel ein gwasanaeth partneriaeth rieni'n darparu cefnogaeth eiriolaeth a datrys anghydfod i blant a phobl ifanc. Gellir cael gwybodaeth am hyn yn www.snapcymru.org

Mae gan ein hawdurdod Lleol ei wybodaeth ei hun hefyd ar ei wefan yn www.npt.gov.uk/1329

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Andrew Thomas
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ
Ffôn 01639 763298

Education, Leisure & Lifelong Learning
Andrew Thomas
Director of Education, Leisure & Lifelong Learning
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ
Tel 01639 763298

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth neu gyngor ychwanegol, cysylltwch â ni yn yr ysgol neu e-bostiwch Wasanaeth Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol CNPT yn alnst@npt.gov.uk

Yn gywir,

Andrew Thomas

Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Andrew Thomas
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ
Ffôn 01639 763298

Education, Leisure & Lifelong Learning
Andrew Thomas
Director of Education, Leisure & Lifelong Learning
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ
Tel 01639 763298

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.